# **Arweiniad ar gyfer ysgolion (a sefydliadau eraill yr awdurdodau lleol) ynghylch lleoli plant tu allan i'w grŵp cronolegol.**

1. Caiff ysgolion eu cynghori y dylid addysgu plant, fel arfer, o fewn eu grŵp blwyddyn cronolegol.

2. Ceir tystiolaeth nad yw gosod plant mewn dosbarthiadau o blant iau, ar y gorau, yn amharu o gwbl ar eu canlyniadau yn y tymor hir, ac ar y gwaethaf, gall arwain at iechyd emosiynol mwy bregus, cyraeddiadau is a gwaeth rhagolygon o ran cyflogaeth.

3. Prin yw'r dystiolaeth bod plant yn elwa o fod mewn dosbarth gyda grŵp o oedran iau na hwy. Ceir peth tystiolaeth o welliannau byr dymor o ran cyflawniad, ond ceir dirywiad o ran cyflawniad, sy'n is na chyfoedion na chedwir yn ôl. Ymhlith yr effeithiau hir dymor mae cynnydd mewn 'cyfraddau rhoi'r gorau i addysg a chyrhaeddiad academaidd is, diffyg hunan barch, a chyfraddau is o ran presenoldeb yn yr ysgol, o'i gymharu â chyfoedion na chedwir yn ôl.

4. Y cyfiawnhad arferol
   Fel arfer, caiff un o'r canlynol eu cynnig fel cyfiawnhad dros osod disgyblion mewn grŵp blwyddyn nad yw'n grŵp a berthyn i'w hoedran cronolegol:

5. i.) Bod y disgybl yn meddu ar sgiliau deallusol eithriadol, ei fod wedi ei ynysu fel dysgwr yn eu grŵp cyfoedion presennol, ac yn peri anawsterau mawr i athrawon o ran darparu estyniad priodol i'r cwricwlwm.

6. ii.) Bod gan y disgybl oediad eithriadol o ran sgiliau deallusol, na all gymryd rhan mewn tasgau dysgu grŵp, a'i fod yn peri anawsterau mawr i athrawon o ran gwahaniaethu cwricwlwm.

7. iii.) Yn aml mewn cydgysylltiad â (ii), mae gan y disgyblion hyn oediad emosiynol, ni allant ffurfio perthnasoedd digonol gyda'u cylch cyfoedion, ac maent mewn perygl o gael eu hynysu.

8. iv.) Bu'r disgybl yn absennol am gyfran helaeth o'r flwyddyn oherwydd salwch neu am resymau eraill.

9. v.) Oherwydd cyflwr corfforol neu lesgedd y disgyblion, ymddengys eu bod angen amgylchfyd llai peryglus nac sy'n bodoli mewn dosbarthiadau ar gyfer eu gwir grŵp oedran.

10. vi.) Ceir plant sydd newydd gyrraedd y DU nad ydynt wedi cael blas o'r cwricwlwm Cenedlaethol dwyieithog ac sydd angen amser i addasu i fywyd ysgol yn y gwledydd hyn.

Y Goblygiadau i’r disgybl.

Disgyblion mewn grŵp oedran hŷn:

11. Mae’n bur bosibl bod disgyblion a osodir mewn grŵp blwyddyn ar y blaen i’w hoedran cronolegol, yn cael eu hysgogi neu’n teimlo’n llai rhwystredig mewn meysydd ble maent yn rhagori nag y buasent pe baent yn eu grŵp oedran cronolegol. Ar y llaw arall, gall y byddant yn wynebu heriau mewn meysydd ble efallai nad yw eu cryfderau a’u hadnoddau personol wedi datblygu cymaint. Yn neilltuol, gall disgyblion nad yw eu haeddfedrwydd corfforol, cymdeithasol ac emosiynol yn cyfateb i’w haeddfedrwydd deallusol eithriadol, ei chael yn anodd cymdeithasu yn yr ysgol. Gall hyn arwain at ganlyniadau emosiynol sylweddol, yn enwedig yn ystod llencyndod.

12. Fodd bynnag, ble mae aeddfedrwydd cyffredinol disgyblion yn fras yn unol ag aeddfedrwydd deallusol, gallant elwa o gael eu lleoli o flaen eu hoedran cronolegol. Ond dylid cadw mewn cof y gellir, o ddilyn yr un cwricwlwm wedi ei gyfoethogi a gyda’r un grŵp oedran cronolegol, sicrhau canlyniadau tebyg ac y bydd yn golygu llai o risg.

13. Unwaith mae disgyblion wedi trosglwyddo i grŵp blwyddyn CC uwch, mae’n anodd gwrth-droi’r newid, a bydd yn golygu ailadrodd blwyddyn CC. Mae’n felly’n bwysig ystyried canlyniadau symudiad o ran cerrig milltir addysgol pwysig bydd y disgybl yn cyrraedd blwyddyn neu ragor o flaen yr oedran arferol, yn trosglwyddo i’r cam nesaf, TGAU ac yn gadael yr ysgol. Mae’n werth nodi na all disgyblion derfynu eu haddysg yn 15 oed, ac felly, gall bydd yn ofynnol iddynt drosglwyddo’n gynnar i’r chweched dosbarth neu goleg addysg bellach.

14. Dylai athrawon, rhieni a disgyblion gwrdd â’r Gwasanaeth Seicoleg Addysgol a’r Gwasanaeth Ymgynghorol i drafod goblygiadau trosglwyddo i grŵp blwyddyn hŷn.

Lleoli mewn grŵp blwyddyn iau.

15. Mae ystyriaeth debyg, er ei fod i’r cyfeiriad arall, yn berthnasol i ddisgyblion a gedwir yn ôl flwyddyn neu ragor o flynyddoedd’. Anaml iawn y caiff cryfderau ac adnoddau disgybl eu cyfyngu’n gyson mewn pob maes, a gall naws o ddisgwyliadau cyffredinol isel fod yn broblemus. Mae hyn yn peryglu yn arbennig ddatblygiad sgiliau corfforol, emosiynol a chymdeithasol.

16. Dylai ysgolion a theuluoedd gymryd gofal ynghylch cadw plant a gânt eu geni yn ystod yr haf mewn blwyddyn is o ran CC. Gall bydd y disgyblion hyn yn meddu ar gyraeddiadau a sgiliau cymdeithasol is nac eraill yn eu blwyddyn CC, a hynny’n unig oherwydd iddynt gael llai o amser ar gyfer addysgu a dysgu. Dylai ysgolion gymryd camau priodol i ddelio â hyn yn nosbarth arferol y plentyn, trwy wahaniaethu’r cwricwlwm yn ôl yr arfer.

17. Unwaith eto, os yw disgyblion allan o’r flwyddyn CC gywir, mae’n anodd gwrthdroi’r newid a gall y byddant, o “drosneidio” yn ôl i’r flwyddyn CC

gywir, yn cael profiadau anodd ac annymunol. Os ydynt yn parhau â'u haddysg mewn blwyddyn CC is, byddant yn cyrraedd y cerrig milltir addysgol pwysig; bydd hawl ganddynt adael yr ysgol cyn cwblhau eu TGAU. Ac os ydynt yn neidio blwyddyn, neu'n aros mewn blwyddyn CC is, ac yn cwblhau eu haddysg o fewn oedran arferol ysgol, byddant yn colli'n gyfan gwbl y rhaglen waith am Flwyddyn Gwricwlwm Genedlaethol gyfan mae ganddynt hawl statudol i'w derbyn.

Goblygiadau i ysgolion

18. Dylai ysgolion fod yn ymwybodol o'r goblygiadau o symud disgyblion allan o'r flwyddyn CC gywir. Gall y penderfyniad i symud disgybl allan o flwyddyn effeithio ar fynediad pan mae gormod wedi ymgeisio am leoedd yn y 'flwyddyn dderbyn", a gall hynny fod yn drafferthus iawn yn CA1, ble na all unrhyw ddosbarth babanod sy'n cynnwys plant 5, 6 neu 7 oed, fod â chymhareb uwch na 30 o ddisgyblion i un athro/athrawes, mae angen cyflogi athro/athrawes ychwanegol os ceir disgybl ychwanegol uwchben y rhif hwn.

19. Ni ellir gwneud eithriad o ran disgyblion a osodir tu allan i oedran cronolegol. Gall disgyblion sy'n cael eu lleoli beri i'r ysgol orfod talu am athrawon ychwanegol. Gallant atal lleoedd ar gyfer disgyblion sydd i gael mynediad, a ble gall y lleoliad fod yn briodol neu'n angenrheidiol. Gall bydd "ysgolion sy'n derbyn" yn wynebu anawsterau tebyg, wrth drosglwyddo cyfnod ar ddiwedd cyfnodau allweddol.

Datganiad o AAA

20. Gall bydd lleoli disgyblion ar ddatganiadau tu allan i'r flwyddyn CC yn arwain at gostau ychwanegol. Os, ar ôl iddynt ail-adrodd blwyddyn CC yn gynharach yn yr ysgol, mae disgyblion ar ddatganiadau yn aros blwyddyn ychwanegol i gwblhau eu haddysg; byddant angen blwyddyn ychwanegol o gyllid ar gyfer y ddarpariaeth testun datganiad.

21. Ceir hefyd oblygiadau i ddisgyblion sy'n destun datganiad AAA ac sy'n trosglwyddo i flwyddyn CC o flaen eu hoedran gronolegol, ac yna'n trosglwyddo o'r ysgol i'r coleg flwyddyn yn gynnar. Mae'r AALL yn gyfrifol am ddisgyblion ar ddatganiad o AAA nes maent yn 19 oed, ond aiff y datganiad yn ddi-rym os yw disgybl yn mynychu coleg cyn cyrraedd 19 oed. Efallai bydd ar rai disgyblion angen gwneud trefniadau arbennig i fynychu'r chweched dosbarth neu'r Coleg Addysg Bellach.

Canllawiau Arfer Dda

22. Mae hawl gan bob plentyn gael ei addysgu gyda'i gyfoedion ef neu hi. Mae'r ysgol yn gyfrifol am ddelio ag anghenion unigol trwy gwricwlwm wedi ei bersonoli ac sydd yn wahaniaethol neu wedi ei gyfoethogi.

23. O dan amgylchiadau eithriadol yn unig y dylai ysgolion ystyried symud disgyblion allan o'r flwyddyn CC. Dylid ystyried y lleoliad yn flynyddol, a

chyd-benderfynu prun ai i gadw plentyn allan o'u grŵp blwyddyn arferol neu eu lleoli yn ôl gyda'u cyfoedion.

24. I gyfiawnhau gorfodi disgybl i aros i lawr flwyddyn, mae'n ofynnol bod sgiliau addysgol y disgybl ar draws y rhan fwyaf o bynciau ymhell islaw'r safon sy'n arferol yn eu blwyddyn CC briodol; ac y ceir tystiolaeth bod ymdrechion rhesymol yr ysgol i addasu a'i hymdrechion priodol i bersonoli'r cwricwlwm wedi bod yn aflwyddiannus.

25. O ganlyniad, dylai'r disgybl dderbyn datganiad AAA, a dylid paratoi Cynllun Addysg Unigol ar ei gyfer ef/hi sy'n cynnwys yn benodol waith ar yr hyn sydd ei angen ar gyfer eu blwyddyn CC briodol. Dylai unrhyw gynnig i drosglwyddo'r disgybl o'r grŵp oedran cronolegol fod wedi cael ei gadarnhau yn ystod y cyfarfod adolygu diweddar a fynychwyd gan rieni a'r disgybl.

26. Ni ddylai disgyblion aros islaw eu blwyddyn CC briodol am gyfnod amhenodol. Dylent ddychwelyd i'w blwyddyn CC briodol cyn gynted a bo modd ac fel arfer erbyn diwedd y flwyddyn CC.

27. Yn ystod y cyfnod pan mae'r disgybl allan o'i flwyddyn, dylai'r cwricwlwm fod yn wahanol yn ei hanfod o ran targedau, trosglwyddo a chefnogaeth er mwyn galluogi cynnydd mwy cyflym yn y meysydd hynny sy'n hanfodol ac er mwyn sicrhau bod y disgybl yn dychwelyd yn llwyddiannus i'r grŵp blwyddyn cywir. Y nod ddylai sicrhau bod y plentyn yn gwneud cynnydd cyflym ac y gellir cynnal y cynnydd hwnnw hyd yn oed ar ôl i'r cyfnod o leoli disgybl tu allan i flwyddyn, ddod i ben.

Ni ddaethpwyd ar draws papurau cyhoeddedig ble ceir canlyniadau positif yn sgil ailadrodd blwyddyn yn yr ysgol, neu oedd yn arfarnu effaith gosod plentyn gyda grŵp blwyddyn hŷn.

**Llyfryddiaeth**


1. Byrnes, D.A. & Yamamoto, K (1985) Academic retention of elementary pupils: An inside look. Education, 106, 2, 208-214.

2. Cadieux, A. (2003) A 3-year longitudinal study of self-concept and classroom behaviour of Grade 1 retained pupils. Perceptual, and Motor Skills, 93, 2, 371-378.

3. Clatworthy, V (2005) The Perceptions of Parents, Pupils and Teachers on Grade Retention. MSc Dissertation (unpublished), University of Bristol.

4. Eide, E.R and Showalter, M.H. (2001) The effect of grade retention on educational and labour market outcomes. Economics of Education Review, 20, 563-576.

5. Ferguson, P.C. (1991) Longitudinal outcome differences among promoted and transitional at-risk kindergarten students. Psychology in the Schools, 28, 2, 139-146.

6. Honffy, M. & Bachlechner, M. (1977) Children whose education is delayed: An initial evaluation of the study. Praxis der Kinderpsychologie und Kinderpsychiatrie, 26, 5, 176-184.

7. Hong, G & Raudenbush, S.W. (2005) Effects of Kindergarten Retention Policy on Children's Cognitive Growth in Reading and Mathematics. Educational Evaluation and Policy Analysis, 27, 3, 205-224.

8. Jimerson, S., Carlson E., Rotert, M., Egeland, B., & Sroufe, L.A. (1997) A prospective, longitudinal study of the correlates and consequences of early grade retention. Journal of School Psychology, 35, 1, 3-25.

9. Mantzicopoulos, P. (1997) Do certain groups of children profit from early retention? A follow-up study of kindergarteners with attention problems. Psychology in the Schools, 34, 2. 115-127.

10. Mantzicopoulos, P. & Morrison, D. (1992) Kindergarten retention: Academic and behavioural outcomes through the end of the second grade. American Educational Research Journal, 29, 1, 182-118.

11. Peterson, S.E., DeGracie, J. S. & Ayabe, C. R. (1987) A longitudinal study of the effects of retention/promotion on academic achievement. American Educational Research Journal, 24, 1, 107-118.

12. Westbury, M. (1994) The effect of elementary grade retention on subsequent school achievement and ability. Canadian Journal of Education, 19, 3, 241-250.

13. John Hattie – The major issues in the retention debate. http://www.arts.auckland.ac.nz/FileGet.cfm?ID=4a924c93-057d-4c0e-8f32-36c11af6113c Retrieved 18th July 2006.

14. National Association of School Psychologist – Position Statement on Student Grade Retention and Social Promotion. www.nasponline.org/information.pospaper_graderetent.html. Retrieved 18th July 206

15. United Nations Educational, Scientific and Cultural Organisation – The Salamanca Statement and Framework for Action on Special Needs Education. http://unesdoc.unesco.org/images/009/000984/098427eo.pdf Retrieved 18th July 2006

Diolch i:

Awdurdodau lleol Birmingham City, Cheshire, Derby City, Salford, South Gloucestershire, West Lothian, Staffordshire a Dinbych am ddarparu polisiau fel esiampl.